CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL
Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Ebost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Ionawr 22 2019 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday January 22 2019 at 7pm.

Presennol/*Present:* Gordon Warren (Cadeirydd/Chair), Gareth Winston Roberts OBE, Myrddin Owens, Meg Roberts, Gina Jones, Liz Wood, Mike Roberts, Julie Ann Hughes, Cyng/Cllr Aled Jones

Yn bresennol/*In attendance*: Carli Evans-Thau (Clerc/*Clerk),* Hywel Hughes (Cyfieithu/*Translation),* Aelodau o'r cyhoedd */ Members of the public.*

Ymddiheuriadau/*Apologies*: John Byast, Gerry Belanger, Richard Jones, Carys Cranston, Kevin Ellis

1 Croeso ac Ymddiheuriadau/*Welcome and Apologies*

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gordon Warren ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
Cyn dechrau'r cyfarfod, nodwyd bod y gymuned wedi derbyn newyddion da gyda cais i'r loteri yn cael ei gymeradwyo, newyddion drwg yn dilyn datganiad Hitachi ynglyn a Wylfa Newydd ac ei fod yn bwysicach fyth cydweithio er budd y gymuned. Atgoffwyd yr aelodau am god ymddygiad y cyngor a'r rheolau sefydlog. Atgoffwyd y cyhoedd eu bod yn bresennol i wrando yn unig.

Nododd Myrddin Owens bod Tony Fitzmaurice wedi anfon ebost yn datgan ei fod yn ymddiswyddo fel aelod o'r Cyngor, ac o ganlyniad felly nid oedd unrhyw ddogfennaeth wedi ei anfon ato. Cafwyd ail ebost ganddo yn nodi nad oedd wedi ymddiswyddo. Mae angen cadarnhau'r sefyllfa gyda Tony Fitzmaurice cyn gynted a phosib. Nid oedd bai ar y clerc am beidio ag anfon dogfennau ato.

The meeting was chaired by Gordon Warren and all present were welcomed.
Before the meeting proper, it was noted that the community had received some good news in the success of the lottery application, bad news following Hitachi's statement regarding Wylfa Newydd and that it was more important than ever to work together for the benefit of the community. Members were reminded of the council's code of conduct and standing orders. Members of the public were reminded that they were present to observe only.

Myrddin Owens noted that Tony Fitzmaurice had sent an email noting his resignation as a member of the council, and as a result he had not been sent any documents. A second email from him noted that he had not stood down. His position is to be clarified as soon as possible. There is no blame on the clerk for not sending him the relevant documents.

2 Datgan Diddordeb/*Declaration of Interest*

Gareth Roberts – Craig y Don (Materion yn Codi/Matters Arising) a/and Peiriant Arian Mona St Cash Machine
Meg Roberts – Cwyn i'r Ombwdsmon/Complaint to the Ombudsman
Liz Wood – Cofnodion y cyfarfod diwethaf (7)/Minutes of the last meeting (7)

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/*Minutes of the last meeting*

Cynnigodd Julie Hughes welliant i'r cofnodion 'bod Meg Roberts wedi datgan bod gwr yr is-gadeirydd yn ei bwlio ar y we', cafodd y cynnig ei eilio gan Gina Jones. Bu i Liz Wood a Meg Roberts adael yr ystafell gyfarfod. Cafwyd pleidlais ar y mater – neb o blaid; neb yn erbyn, bu'r mater ddisgyn.

Julie Hughes proposed an improvement to the minutes that 'Meg Roberts said that the vice chair's husband was online bullying towards her', the proposal was seconded by Gina Jones. Liz Wood and Meg Roberts left the meeting room. A vote was taken – none in favour; none against, proposal not endorsed.

4 Materion yn codi/*Matters Arising*

4.1 Prydles Maes Llwyn Lease

Dim diweddariad gan CSYM hyd yma. Cynnig cysylltu eto i atgoffa'r swyddogion perthnasol. Cynnig Myrddin Owens, eilio Gareth Roberts.

No update as yet from IACC. Propose to contact the relevant officers again to remind them. Proposed Myrddin Owens, seconded Gareth Roberts.

4.2 Canolfan Hamdden/Leisure Centre

Dim diweddariad hyn yma / *No update as yet*

4.3 Craig y Don

Ni fydd llai o waith diogelu yn cael ei gwblhau, bydd CSYM yn ariannu gweddill y prosiect. Mae'r gwaith ar fin dechrau a bydd yn parhau nes mis Ebrill.

The amount of safeguarding work will not be reduced, IACC will fund the shortfall. The work is to start imminently and will continue until April.

4.4 Siapio Cymunedau/*Place Shaping*

Mae'r cyfarfod nesaf i'w gynnal 29/1. Bydd Liz Wood yn mynychu ar ran y Cyngor. Gobeithir bydd peth arian ar gael o ffynhonellau eraill ac nid yn unig Wylfa Newydd. Mae Horizon wedi cadarnhau byddent yn cadw at eu gair i gefnogi prosiectau sydd eisioes wedi eu cymeradwyo.

The next meeting is to take place 29/1. Liz Wood will attend on behalf of the Council. It is hoped that funding will be available from other sources not just Wylfa Newydd. Horizon has confirmed that they will honour any funding already approved for projects.

4.5 *Go Safe*

Cafwyd cadarnhad gan yr heddlu byddent yn monitor cyflymder cerbydau ym Mhenycefn unwaith bydd y gwaith dwr wedi ei gwblhau a'r lon wedi ail agor.

The police have confirmed that they will be monitoring vehicle speed at Pen y cefn as soon as the water works have been completed and the road reopened.

4.6 *Cofnodion – Cyffredinol / Minutes – General*

Bwriad cofnodion yw cofnodi penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfod nid cofnodi air am air y drafodaeth. Cynnigwyd bod cofnodion y Cyngor o hyn allan yn cynnwys penawd a pherderfyniad yn unig gydag unrhyw weithred hefyd wedi ei nodi. Cynnig Myrddin Owens, eilio Meg Roberts. Cafwyd pleidlais ar y mater – 5 o blaid (GWR/LW/MWO/MFR/GW) 3 yn erbyn (MJR/GJ/JH). Derbyniwyd y cynnig.

The purpose of minutes is to record decisions made at a meeting and not to record the discussion word for word. It was proposed that the Council's minutes from now on include a heading and decision only with actions also noted. Proposed Myrddin Owens, seconded Meg Roberts. A vote was taken on the matter – 5 in gfavour (GWR/LW/MWO/MFR/GW), 3 against (MJR/GJ/JH). The proposal was carried.

5 Pwyllgorau Allannol / *External Meetings*

Dim/None

6 Pwyllgor Cyllid / *Finance Committee*

Cafwyd grynodeb gan Myrddin Owens o'r cyfarfod diwethaf. Nodwyd bod tri cais wedi ei wneud i'r ombwdsmon yn ogystal a chais y cyngor. Nododd hefyd bod nifer o geisiadau am gopiau o'r ffeil sain o gyfarfodydd blaenorol. Mae'r Cyngor yn gwynebu cost i baratoi'r copiau yma gan fod angen

cymorth technegol arbennigol. Nododd bod rhai cynghorau yn caniatau i unrhywun recordio cyfarfodydd cyffredinol. Byddai angen ystyried hyn ymhellach.

Cafwyd wybod bod tri cais am arian wedi eu derbyn. Mae'r pwyllgor yn cynnig cefnogi cais yr Hen Ysgol Borth Amlwch am £350 tuag at offer newydd. Pawb yn gefnogol. Daw cais gan Age Well Hwyliog Mon am £10k, pwyllgor yn cynnig bod Liz Wood a Myrddin Owens yn cwrdd a'r cwmni i drafod ymhellach. Pawb yn hapus. Y trydydd cais oedd cyfraniad tuag at noson elusennol wedi ei drefnu ar y cyd gan grwpiau cymunedol. Nid oedd gwrthwynebiad cyfrannu £500 tuag at yr achlysur.

Cafwyd ddiweddariad am y prosiect loteri gan nodi bod angen ffurfio isbwyllgor ymgynghorol ar y cyd a Caru Amlwch. Cytuno mai cynrychiolaeth y Cyngor fyddai Mike Roberts, Myrddin Owens, Gordon Warren, a Meg Roberts. Ni fu gwrthwynebiad.

Myrddin Owens gave a summary of the last meeting. it was noted that three requests had been made to the Ombudsman in addition to the Council's complaint. It was also noted that there were a number of requests for the audio recording of previous meetings. It costs the council to prepare the copies as specialist technical assistance is required. He noted that some councils allow anyone to record proceedings at ordinary meetings. This would need to be considered further.

Three requests for funding had been received. The committee proposed to support the Old School, (Amlwch Port);'s request for £350 towards new equipment, all in agreement. An application for £10k from Age Well Hwyliog Mon towards running costs, the committee propose that Myrddin Owens and Liz Wood meet with the company to discuss further. All in agreement. The third request was a contribution towards a charity evening arranged in partnership by community groups. There was no objection to contributing £500 towards the cause.

An update was given regarding the lottery project noting that a consultative subcommittee was required in partnership with Caru Amlwch. Agreed that the Council's representatives would be Mike Roberts, Myrddin Owens, Gordon Warren and Meg Roberts. There was no objection.

7 Cynnigion - Polisi Recordio Sain Cyfarfodydd/Motions - *Audio Recording or Meetings Policy*

Roedd copi o'r polisi ddrafft wedi ei ddanfon at yr aelodau cyn y cyfarfod. Cynnigwyd gwelliant y pwyllgor cyllid bod y ffeil sain yn cael ei gadw am gyfnod o dri cyfarfod wedi i'r cofnodion gael eu cymeradwyo. Cynnig Gareth Roberts, eilio Liz Wood. Nododd Julie Hughes efallai na fyddai angen i'r Cyngor recordio a chadw ffeiliau sain petai unrhywun yn cael recordio cyfarfodydd y Cyngor yn uy dyfodol. Cynigodd Liz wood bod y mater yn cael ei ohurio nes y cyfarfod nesaf eilio gan Myrddin Owens, pawb yn cytuno.

A copy of the draft policy had been sent to the members prior to the meeting. the finance committee's proposal was presented i.e. that the audio files are kept for a period of three meetings following approval. Proposed Gareth Roberts, seconded Liz Wood. Julie Hughes noted that there may be no need for the Council to record and store audio files should anyone be able to record council meetings in the future. Liz Wood proposed that the matter be deferred until the next meeting, seconded by Myrddin Owens, all in agreement.

8 Wylfa Newydd

Nid oes cyfarfod wedi ei gynnal gyda Horizon yn dilyn y datganiad bod y prosiect yn cael ei atal am y tro. Mae pryder mawr am y nifer o swyddi fydd yn cael eu colli yn uniongyrchol a'r rheini oedd ar secondiad. Gobeithir cael cadarnhad a fyddai'r broses DCO yn parhau o fewn y pythefnos nesaf. Cynnig bod Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon yn cysylltu a'r gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Llundain i dynnu sylw at y mater a'r angen am ddatblygiad yng ngogledd Mon. Cynnig Myrddin Owens, eilio Meg Roberts, pawb yn gefnogol.

There has not been a meeting with Horizon since the statement by Hitachi that the project was being suspended. There is great concern for the number of job losses both directly and those on secondment. It is hoped to hear whether the DCO application will continue within the next two weeks. Proposed that the North Anglesey Councils Partnership contact the relevant minister in Westminster to draw their attention to the matter and the need for development in North Anglesey. Proposed Myrddin Owens, seconded Meg Roberts, all in agreement.

9 Cyfryngau Cymdeithasol / *Social Media*

Cytuno gohurio'r drafodaeth nes bydd CarysCranston yn bresennol.
Agreed to defer the discussion until Carys Cranston was present.

10 Cwestiynnau i'r Cynghorwyr Sirol / *Questions to the County Councillors*

10.1 Peiriant Arian/*Cash Machine*

Bu i Gareth Roberts adael yr ystafell. Nodwyd siom bod cwmni sydd berchen ar y peiriant arian yn Stryd Mona yn codi arian ar bobl am ei ddefnyddio. Bydd Aled Jones yn cysylltu a hwy i wneud ymholiadau pellach. Mae'r peiriant yn gwasanaethu'r ardal ehangach. Nododd Liz Wood nad oedd gan Co-op unrhyw fwriad i godi ar bobl am gael eu harian o'r peiriant yno.

Gareth Roberts left the meeting room. Disappointment was noted that the company who owns the cash machine at Mona Street was now charging people to take out money. Aled Jones will contact them to make further enquiries. The machine services the wider community. Liz Wood noted that the Co-op had no intention of charging people to take out money at the cash machine there.

11 Gohebiaeth / *Correspondence*

11.1 Cafwyd lythyr gan Albert Owen AS yn llongyarch y Cyngor am ddenu arian Loteri.
A letter was received from Albert Owen MP congratulating the Council for securing lottery funding.

11.2 Cafwyd lythyr gan 'Amlwch Community Events Group' yn gofyn am ddefnyddio Parc Lon Goch am ddigwyddiad 25/5. Ni fu gwrthwynebiad ond gofynnwyd am gopi o'u hyswiriant ac asesiad risg. Cynnig Myrddin Owens, eilio Mike Roberts. Pawb yn cytuno.

A letter from Amlwch Community Events Group asking to use Lon Goch Park for an event 25/5. There was no objection but a copy of their insurance and risk assessment would be required. Proposed Myrddin Owens, seconded Mike Roberts. All in agreement.

12 Unrhyw Fater Arall/*Any Other Business*

Dim/None

13 Dyddiad y cyfarfod nesaf/*Date of next meeting*

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Fawrth Chwefror 26 2019 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor.
The next meeting will take place on Tuesday February 26 2019 at 7pm at the Council Chamber.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.30 / *The meeting closed at 20.30*

Arwyddwyd / Signed:
Gordon Warren, Cadeirydd / Chair